POLISI
ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

YSGOL Y CREUDDYN

Dyddiad y Polisi: Hydref 2014

Dyddiad Adolygu: Hydref 2016

POLISI ABCh

YSGOL Y CREUYDDN

Dyddiad y Polisi : Hydref 2014

Dyddiad Adolygu : Hydref 2016

Fformiwleiddio Polisi a Phroses Ymgynghori

- Mae Ysgol Y Creuddyn yn cynnig amrywiaeth o brofiadau sydd yn cefnogi a hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles y dysgwyr. Mae ABCh yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth a rhyngweithio'n effeithiol ag eraill. Dylai ABCh baratoi dysgwyr i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus er mwyn chwarae rhan weithgar a chyfrifol yn y gymdeithas a gwella dysgu, lefelau cymhelliant a chyflawniad.

- Lluniwyd y polisi a'r cynlluniau gwaith i gydymffurfio â Pholisi Addysg Bersonol a Chymdeithasol AALl Conwy.

Ymgynghorwyd â'r canlynol wrth drefnu'r polisi cyfredol:

- Cydlynydd ABCh
- Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc
- Nyrs ysgol
- Swyddog Amddiffyn Plant Ysgol Y Creuddyn
- Y Cyngor Ysgol
- Yr Athrawon a'r Llywodraethwyr
- Swyddog Cyswllt â'r Ysgol, Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yw popeth y bydd ysgol yn ei wneud i gynnal a hybu datblygiad personol a chymdeithasol eu pobl ifanc. Mae'n cynnwys cyfleoedd dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi.

2. Nodau

Mae ABCh yn paratoi'r dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.

Yn benodol, nodau ABCh yw:

- datblygu hunan-dyb y dysgwyr a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb personol
- hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth

- galluogi dysgwyr i fyw bywydau diogel ac iach
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes
- galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y sialensiau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn.

3. **Amcanion**

Hyrwyddo **agweddau a gwerthoedd** personol :

- Hunan-barch
- Parch ac ystyriaeth at eraill
- Parodrwydd i dderbyn pobl eraill beth bynnag fo'u hil, crefydd , rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd ac i warchod cyfleoedd cyfartal
- Ymrwymiad at degwch a chyfiawnder
- Annibyniaeth meddwl
- Cyfrifoldeb
- Parodrwydd i gydweithio
- Sensitifrwydd at yr amgylchedd
- Awydd i ymchwilio am y gwir

Meithrin **sgiliau personol a chymdeithasol** :

- Cyfathrebu e.e. gwrando
- Rhyngbersonol e.e. cydweithio
- Mewn-bersonol e.e. myfyrio
- Datrys problemau a gwneud penderfyniadau e.e. dewisiadau gyrfaol
- Astudio e.e. gosod targedau personol
- Ymarferol e.e. Cymorth Cyntaf

Datblygu **dealltwriaeth** am graidd o **wybodaeth** sydd yn perthyn i'r agweddau a ganlyn :

- Cymdeithasol – galluogi disgyblion i fwynhau cydberthnasau llwyddiannus o fewn eu teuluoed, grwpiau o gyfeillion a'r gymuned ehangach.
- Cymunedol – annog disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar mewn cyd-destunau lleol a byd-eang
- Corfforol – cynorthwyo disgyblion i gynnal eu hiechyd a'u lles corfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad a gwybod sut i'w diogelu eu hunain
- Rhywiol – cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o newidiadau corfforol, i reoli teimladau rhywiol ac i fwynhau cydberthnasau diogel, cyfrifol a hapus.
- Emosiynol – galluogi disgyblion i ymchwilio ac archwilio eu teimladau ac i ddatblygu hunanymwybyddiaeth, hunan-barch a hunan-hyder.
- Ysbrydol – cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu mewnwelediadau, credoau a gwerthoedd personol, a'r gallu i fyfyrio am eu profiadau a rhai o gwestiynau a materion dwysach bywyd.

- Moesol – hyrwyddo gwerthoedd megis parch, gonestrwydd a chyfrifoldeb a chynorthwyo disgyblion i lunio barn ar agweddau moesol.
- Galwedigaethol – annog disgyblion i ddatblygu mewnwelediad i'w potensial a'u galluoedd eu hunain ac i ofynion cyfnewidiol byd gwaith.
- Dysgu – cynorthwyo disgyblion i wella eu dysgu a'u perfformiad ac i ddatblygu ymrodiad i ddygsu gydol oes
- Amgylcheddol – datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u cyfrifoldeb mewn perthynas a chadw a chynnal yr amgylchedd

4. Ethos ac Amgylchedd Yr ysgol

Mae ABCh yn cynnwys ystod o brofiadau sy'n hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles y dysgwyr. Mae'r ystod o brofiadau'n cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gaiff eu cynllunio a'r holl gyfleoedd eraill sy'n nodweddion o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol.

Mae ethos ac amgylchedd Ysgol Y Creuddyn yn paratoi a chefnogi'r dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol a chymdeithasol. Wrth gynllunio, dylid cydnabod pwysigrwydd y canlynol :

- polisi ABCh cyfredol - cydlynu effeithiol, hyfforddiant a chymorth i'r staff
- gwersi ABCh sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ac yn bwrpasol
- addysgu sydd wedi'i gynllunio mewn perthynas â sgiliau, agweddau a gwerthoedd, a gwybodaeth a dealltwriaeth perthnasol ym maes ABCh, a hynny o fewn gwersi Cynnydd, pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac Addysg Grefyddol
- strategaethau addysgu a dysgu sy'n defnyddio dulliau geithredu rhyngweithiol a phrofiadol
- ethos sy'n gwerthfawrogi disgyblion a'u cyfraniad ac sy'n hybu cydberthnasau cadarnhaol a hunan-dyb
- gofal bugeiliol sydd yn cynnig arweiniad ac yn monitro cynnydd e.e. Gwersi Cynnydd
- trefn sydd yn cynnig cyfleoedd i ddigyblion gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chynnal ymddygiad cadarnhaol e.e. Cyngor Ysgol
- prosiectau sy'n ymwneud â dinasyddiaeth weithgar
- profiadau allgyrsiol, clybiau ac ati
- Defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned a chynnwys y gymuned

5. Y Cwricwlwm ABCh yn yr ysgol

Mae'r themâu a nodir yn y fframwaith ABCh fel a ganlyn:

• Dinasyddiaeth weithgar
• Iechyd a lles emosiynol
• Datblygiad moesol ac ysbrydol

• Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
• Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r themâu hyn yn feysydd datblygu sydd ar wahân i'w gilydd, ond eu bod yn hytrach yn themâu y ceir cyswllt anorfod rhyngddynt.

Caiff y deilliannau dysgu'r cyfnodau allweddol ar gyfer pob thema eu cyflwyno dan y pennawd 'Ystod'. Yn yr adran 'Ystod', ceir manylion am yr agweddau a'r gwerthoedd, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y dylid eu defnyddio fel cyd-destunau dysgu i ddatblygu sgiliau cysylltiedig ag ABCh.

6. Amlinelliad o'r modd y trefnir ABCh

Cydlunir y cwbl yn yr Ysgol gan y Cydlynydd ABCh (Mrs Katie T Jones) a'r Cyswllt ABCh ac Iechyd (Arwel Owain Roberts) Pennaeth Cynorthwyol.

Rhoddir mewnbwn i'r rhaglen ABCh gan y :

- Penaethiaid Blwyddyn
- Cyd-gysylltydd AchG a AGG
- Pennaeth Addysg Grefyddol
- Cyd-gysylltydd Llythrennedd
- Cyd-gysylltydd Rhifedd
- Cyd-gysylltydd Technoleg Gwybodaeth
- Athrawon ABCh

Cyflwynir y rhaglen ABCh fel a ganlyn:

I. <u>Gwersi ABCh</u>

Gwersi yn wythnosol ar gyfer y dysgwyr o Flwyddyn 7 i 13

II. <u>Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol</u>

Cyfleoedd ABCh yng nghynlluniau dysgu'r adrannau

III. <u>Rhaglen Gwersi Cynnydd</u>

Ceir gwers 'Cynnydd' unwaith y mis i'r dosbarthiadau cofrestru. Mae'r Penaethiaid Blwyddyn yn trefnu rhaglen o weithgareddau yn flynyddol ar gyfer hynny.

IV. <u>Sesiynau ABCh BL 12 (Bagloriaeth Cymru)</u>

Ceir sesiynau ABCh yn wythnosol. O bryd i'w gilydd ceir cyfraniadau gan asiantaethau allanol a siaradwyr gwadd ar yr amserlen.

V. <u>Mewnbwn gan Asiantaethau allanol ac ymwelwyr i'r ysgol</u>

Ceir cyfraniadau gan asiantaethau allanol a siaradwyr gwadd sy'n cynnig arbenigedd mewn rhai meysydd e.e. Cyswllt Heddlu'r Ysgol, Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc, Ymgynghorydd ABCh Conwy – yn cyflwyno pynciau megis dinasyddiaeth, camddefnyddio sylweddau, alcohol, hylendid.

VI. Diwrnodau Sgiliau a Diwrnodau Ffocws Arbennig

Mae'r diwrnodau hyn yn cynnig cyfle i'r dysgwyr ehangu eu cyfleoedd bywyd bob dydd. Ceir cyfleoedd gyrfaol a sgiliau astudio i ddisgyblion Blwyddyn 11 gan siaradwyr gwadd. Cynhelir cyfraniadau gan y 'Criw Craidd' yn ymwneud â diogelwch personol yn y Ffair Iechyd yn ystod Wythnos Weithgareddau. Ceir cyfraniadau gan amryw o asiantaethau allanol megis Childline, NSPCC, Gwylwyr y Glannau, Diogelwch y Rheilffyrdd, Y Groes Goch, yn ogystal â thestunau gan heddwas yr ysgol, hyfforddiant cymorth cyntaf elfennol i bawb ym mlwyddyn 7 gan nyrs yr ysgol.

VII. **Themau Gwasanaethau Boreol**

Yn ystod bob tymor ceir gwasanaethau thematig. Mae rhain yn cyd-fynd â dyddiadau / gweithgareddau arbennig ar galendr yr ysgol. Mae rhain yn cael eu cyflwyno gan y dysgwyr o'r dosbarthiadau cofrestru.

VIII. **Bywyd bob dydd yr ysgol**

Yn ystod bywyd bob dydd yr ysgol a gweithgareddau ysgol gyfan e.e. gwaith elusennol,gwaith yn y gymuned, clybiau, timau e.e. corau'r Urdd, band, Cyngor Ysgol, bydis

7. Rôl Darparwyr Allanol

Mae'r ysgol yn sylweddoli gwerth cyfraniad asiantaethau allanol priodol a siaradwyr gwadd i lwyddiant rhaglen ARhPh. Ond serch hynny rhaid i'r siaradwyr hyn wybod beth yw cynnwys polisi'r ysgol a'r canllawiau a luniwyd i'w gyflwyno. Os daw asiantaethau allanol neu unigolion dieithr i gynnig eu gwasanaeth dylid gofyn yn gyntaf am gyngor proffesiynolwyr Iechyd cyn eu derbyn.

Bydd copi o'r uchod ar gael yn yr ysgol.

8. Gweithdrefnau Monitro a Gwerthuso

Bydd dulliau gweithredu'r polisi yn cael eu monitro gan Cydlynydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol a'r Cyswllt ABCh (Pennaeth Cynorthwyol). Ymgynghorir â'r bobl hyn pan adolygir y polisi:

- Disgyblion
- Cyngor yr ysgol
- Rhieni/Gwarcheidwaid/Gofalwyr
- Athrawon
- Llywodraethwyr
- Gweithwyr Proffesiynol Iechyd,
- Asiantaethau Allanol

9. Rhannu'r polisi gydag eraill

Mae copi o'r polisi hwn ar gael i athrawon, myfyrwyr ac ymwelwyr a darparwyr allanol.
Copi o'r polisi ar gael i rieni ar gais.
Copi i'r AALl ac ESTYN drwy law y Pennaeth.

Paratowyd y polisi gan: Cyswllt ABCh, AALl Conwy

Trafodwyd gyda'r Staff _____

Cytunwyd gyda'r Llywodraethwyr: _____

Enwau'r unigolion â chyfrifoldeb am ABCh:

Owain Gethin Davies - Cyd-gysylltydd ABCh a Phennaeth Cynorthwyol

Adolygir y polisi hwn bob 3 blynedd.